

PWYLLGOR DIOGELU'R CYHOEDD

DYDD MAWRTH, 5 TACHWEDD 2019

Yn
bressenol: Cynghorydd Mackie(Cadeirydd)

Cynghorwyr Asghar Ali, Derbyshire, Goddard, Jacobsen,
Lancaster, Robson a/ac Wood

7 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

8 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

9 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 3 Medi 2019 ac ar 9 Hydref 2019 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

10 : CAIS CERBYD MOETHUS

Ni aeth yr ymgeisydd i'r cyfarfod.

11 : PENDERFYNU ADDASRWYDD YMGEISWYR A THRWYDDEDEION

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ar ganllawiau diwygiedig ar gyfer penderfynu addasrwydd ymgeiswyr a thrwyddedeion diwydiant hacni a llogi preifat

Ym mis Ebrill 2019, cyhoeddodd y Sefydliad Trwyddedu ddogfen o'r enw "Canllawiau ar Benderfynu Addasrwydd Ymgeiswyr a Thrwyddedeion yn y Fasnach Hacni a Llogi Preifat". Cyhoeddwyd y canllawiau ar y cyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol, Cyfreithwyr mewn Llywodraeth Leol a Chymdeithas y Swyddogion Trwyddedu a Gorfodi.

Mewn cyfarfod diweddar o Banel Arbenigwyr Trwyddedu Cymru, cafodd y ddogfen hon ei chymeradwyo gan argymell y dylai pob awdurdod lleol yng Nghymru gymeradwyo a gweithredu'r canllawiau, gan ddisodli eu polisiau cyfredol. Mae nifer o awdurdodau wedi mabwysiadu'r canllawiau ac mae rhai eraill wrthi'n gwneud felly.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod gan yr awdurdod bolisi i ddarparu canllawiau ar drin euogfarnau, rhybuddion a chyhuddiadau troseddol mewn perthynas ag ymgeiswyr newydd a gyrwyr a gweithredwyr cyfredol. Mae'r polisi cyfredol wedi bod ar waith er 2015. Penderfynodd y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 9 Ebrill 2019 ymgynghori â'r fasnach tasci leol ar y canllawiau arfaethedig ar benderfynu addasrwydd ymgeiswyr a thrwyddedeion. Atodwyd copi o'r canllawiau arfaethedig i'r adroddiad.

Dywedwyd wrth yr Aelodau y derbyniwyd dau ymateb yn ystod y cyfnod ymgynghori. Crynowyd y ddau ymateb yn yr adroddiad. Roedd ymateb 1 gan yrrwr oedd yn credu bod y awgrymiadau ynghylch y troseddau gyrru arfaethedig yn afresymol.

Roedd ymateb 2 gan Sefydliad Hacni Caerdydd, yn gofyn i Asesiad Llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb gael ei gynnal ac i'r canfyddiadau gael eu trafod cyn gweithredu unrhyw beth. Atodwyd copi o'r Asesiad hwn i'r adroddiad yn Atodiad D.

Derbyniodd y Pwyllgor sylwadau gan Alan McCarthy oedd yn cynrychioli Unite. Cododd Mr McCarthy bryderon fod y canllawiau arfaethedig yn debygol o gael effaith niweidiol ar gymunedau duon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Hefyd codwyd pryderon, pe bai'r canllawiau diwygiedig yn cael eu mabwysiadu, y byddai ymgeiswyr newydd yn troi at awdurdodau eraill sy'n rhoi safonau is ar waith. I bob diben, bydd yr awdurdod yn colli rheolaeth dros orfodi'r gyrwyr a cherbydau hynny pan fônt yn gweithredu yn y Ddinas gan y byddant wedi'u trwydded gan awdurdodau eraill.

Gofynnodd Mr McCarthy i'r Pwyllgor ystyried oedi gweithredu'r canllawiau newydd nes y bydd awdurdodau lleol cyfagos wedi'u gweithredu, neu ymgynghori a chytuno ar ddyddiad yn y dyfodol y gallai pob awdurdod weithredu'r canllawiau arno.

Byddai nid yn unig yn mynd i'r afael â 'thrawsffinio', byddai hefyd yn cynnig cyfle i ddadansoddi a oes effaith niweidiol ar ymgeiswyr duon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig neu ddim. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi nad oes gan awdurdodau lleol eraill yr un lefel o gynrychiolaeth o bobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig â Chaerdydd.

Dywedodd y swyddogion fod Comisiwn y Gyfraith a Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar gynigion i gyflwyno safonau cenedlaethol. Fodd bynnag, mae rhywfaint o ansicrwydd o hyd ac nid oes unrhyw arwydd wedi bod ynghylch amserlenni.

Roedd yr aelodau o'r farn pe bai cais yn dod i law, y bydd yr awdurdod yn ystyried a yw'r ymgeisydd yn berson addas a phriodol. Bydd Canllawiau Polisi'n parhau i fod ar waith a bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail ei rinweddau ei hun. Dywedodd yr Aelod, nes y caiff Papur Gwyn ar Safonau Cenedlaethol ei gyhoeddi, dylai Caerdydd fod yn arwain y ffordd. Mae'r canllawiau diwygiedig yn cynnig canllawiau polisi cryfach a gwell. Bydd awdurdodau eraill yn gwneud yr un peth.

Hefyd ystyriodd y Pwyllgor y manteision ynghlwm wrth oedi rhag gweithredu tan ddyddiad yn y dyfodol y cytunwyd arno gydag awdurdodau cyfagos.

PENDERFYNWYD - Bod y ddogfen ganllaw polisi 'Canllaw ar Benderfynu Addasrwydd Ymgeiswyr a Thrwyddedeion yn y Fasnach Hacni a Llogi Preifat' sydd wedi'i atodi i'r adroddiad yn Atodiad A yn cael ei chymeradwyo a'i gweithredu o 6 Tachwedd 2019.

12 : EITEMAU BRYD (OS OES RHAI)

Ni nodwyd unrhyw eitemau bryd.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.00 am